# Deddf Tai (Cymru) 2014

**2014 dccc 7**

## RHAN 1

RHEOLEIDDIO TAI RHENT PREIFAT

*Gwahardd gosod a rheoli heb gofrestriad a thrwydded*

### 8 Eithriadau i ofynion i landlord fod yn drwyddedig

**[**[F1](1)**]** Nid yw'r gofynion yn adrannau 6(1), 7(1) a 7(3) yn gymwys—

(a) os yw'r landlord wedi gwneud cais i'r awdurdod trwyddedu i fod yn drwyddedig, am y cyfnod o ddyddiad y cais hyd nes y bydd yr awdurdod yn penderfynu arno neu (os yw'r awdurdod yn gwrthod y cais) hyd nes y bydd pob dull o apelio yn erbyn penderfyniad i wrthod y cais wedi ei ddisbyddu a'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau;

(b) am gyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y dyddiad yr aseinir buddiant y landlord yn yr annedd i'r landlord;

(c) os yw'r landlord yn cymryd camau i adennill meddiant o'r eiddo o fewn cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y dyddiad yr aseinir buddiant y landlord yn yr annedd i'r landlord, am ba hyd bynnag ag y bydd y landlord yn parhau yn ddiwyd i geisio adennill meddiant;

**[**[F2](d) i landlord sy'n dod o fewn y diffiniad o landlord cymunedol (pa un ai'r landlord yw'r landlord o dan gontract meddiannaeth ai peidio);**]**

(e) i landlord sy'n gymdeithas dai gwbl gydfuddiannol;

(f) mewn achosion a bennir at ddibenion yr adran hon mewn gorchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** A. 8 wedi ei ailrifo fel a. 8(1) (1.12.2022) gan Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/1166), rhlau. 1(1), **34(4)(a)**

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Tai (Cymru) 2014, Adran 8. (See end of Document for details)*

**F2** A. 8(1)(d) wedi ei amnewid (1.12.2022) gan Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/1166), rhlau. 1(1), **34(4)(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 8 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 145(3)**

**I2** A. 8 mewn grym ar 1.12.2014 at ddibenion penodedig gan O.S. 2014/3127, ergl. 2(b), **Atod. Rhn. 2**

**I3** A. 8 mewn grym ar 23.11.2016 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2016/1066, **ergl. 2**

**I4** A. 8 mewn grym ar 23.11.2016 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2016/1009, **ergl. 2(2)(e)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Tai (Cymru) 2014, Adran 8.